Haf 2022:

Canllawiau ar drefniadau wrth gefn ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy

Fersiwn 1.0 - Tachwedd 2021

Cynnwys

	Tudalen
1. Pwrpas	**3**
2. Cyflwyniad	**3**
3. Cydraddoldebau	**3**
4. Beth fydd graddau a bennir gan ganolfannau'n eu mesur yn haf 2022?	**4**
5. Pa dystiolaeth o asesu y dylid ei chasglu?	**4**
6. Cadw cofnodion	**5**
7. Prosesau sicrhau ansawdd	**5**
8. Ymgeiswyr preifat	**6**
9. Gwybodaeth a chanllawiau i ddysgwyr	**6**
10. Gwybodaeth a chefnogaeth i ganolfannau	**7**

Haf 2022: Arweiniad ar drefniadau asesu wrth gefn ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy[1]

Tachwedd 2021- fersiwn 1.0

Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg i ganolfannau o beth fydd y gofynion os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad i ganslo cyfres arholiadau haf 2022. Ni fwriedir i'r wybodaeth yn y ddogfen hon dynnu oddi ar y sefyllfa bolisi gyfredol i arholiadau fynd ymlaen yn haf 2022.

Dylai canolfannau baratoi ar gyfer y posibilrwydd o roi'r trefniadau wrth gefn ar waith trwy gynllunio pa asesiadau y byddant yn eu defnyddio i lywio graddau a bennir gan ganolfannau, pe bai eu hangen, fel y gall casglu tystiolaeth asesu ddechrau cyn gynted â phosibl ac fel sy'n briodol ar gyfer pob canolfan. Er mwyn i hyn gael ei reoli ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer y gyfres arholiadau yn haf 2022, dylai canolfannau geisio integreiddio'r asesiadau hyn i gynlluniau addysgu a dysgu arferol a chynlluniau asesu presennol.

Dylid marcio asesiadau a rhoi adborth i ddysgwyr i helpu paratoi ar gyfer y gyfres arholiadau yn haf 2022 ac i ganiatáu eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer gradd a bennir gan ganolfan, os bydd angen. Rhaid i ganolfannau hysbysu dysgwyr pa asesiadau a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth fel rhan o'r trefniadau wrth gefn os caiff arholiadau eu canslo. Pe bai hynny'n digwydd, byddai'r asesiadau'n cael eu defnyddio i gefnogi dyfarniad cyfannol o radd cymhwyster a bennir gan ganolfan.

Y prif bwyntiau ar gyfer canolfannau:

1. Os bydd arholiadau'n cael eu canslo, gofynnir i ganolfannau bennu graddau cymhwyster ar gyfer eu dysgwyr.
2. Mae graddau a bennir gan ganolfannau'n raddau cymhwyster cyffredinol a gynhyrchir trwy ddyfarniad cyfannol sy'n cael ei danategu gan nifer o ddarnau o dystiolaeth o gyrhaeddiad a ddangosir.
3. Ni ddylech bennu graddau cymhwyster eto, a chyhoeddir mwy o ganllawiau os bydd arholiadau'n cael eu canslo.
4. Mae angen i chi ystyried pa dystiolaeth asesu a ddefnyddir i gefnogi penderfyniadau ynghylch graddau cymwysterau os caiff arholiadau eu canslo.
5. Mae angen i chi ddweud wrth ddysgwyr pa asesiadau a ddefnyddir i bennu graddau cymwysterau fel y gallant baratoi ac, os oes angen, mae angen i chi ddiweddaru unrhyw hysbysiadau prosesu data.
6. Mae angen i chi farcio'r holl asesiadau yn gyson fel y gellir defnyddio'r dystiolaeth os oes angen.
7. Gallwch roi adborth i ddysgwyr ar bob asesiad, fel y byddech chi fel arfer.
8. Rhaid peidio â chaniatáu i ddysgwyr ail-sefyll yr un asesiad er mwyn gwella eu gradd os caiff arholiadau eu canslo.

[1]Bydd trefniadau amgen ar gyfer cymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael eu cyfleu ar wahân.

1. Pwrpas

1.1. Mae'r arweiniad hwn yn nodi gwybodaeth lefel uchel ar gyfer canolfannau[2] sy'n ymwneud â'r **trefniadau asesu wrth gefn** ar gyfer haf 2022, a fydd yn berthnasol os bydd y gyfres arholiadau'n cael ei chanslo.

1.2. Rydym ni'n parhau i weithio gyda CBAC a rhanddeiliaid eraill ar agweddau ar y broses nad oes eu hangen ar hyn o bryd. Er mwyn caniatáu i ganolfannau ganolbwyntio ar y gyfres arholiadau a gynlluniwyd, dim ond os caiff arholiadau eu canslo y bydd y rhain yn cael eu cyfleu.

1.3. Os bydd y gyfres arholiadau yn cael ei chanslo, byddwn yn ailgyhoeddi'r arweiniad hwn gyda manylion ychwanegol. Er enghraifft, darperir mwy o wybodaeth am brosesau sicrhau ansawdd allanol.

1.4. Ni fwriedir i'r wybodaeth lefel uchel yn y canllaw hwn gefnogi dyfarnu graddau a bennir gan ganolfannau ar hyn o bryd. Dim ond os caiff arholiadau eu canslo y dylid gwneud penderfyniadau graddio a bennir gan ganolfannau a dim ond ar ôl i'r wybodaeth ategol briodol gael ei darparu fel y gall canolfannau wneud hyn mor effeithiol â phosibl.

2. Cyflwyniad

2.1. Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom ni gyhoeddi y byddai arholiadau yn haf 2022, ac y byddai'r gofynion asesu ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch CBAC yn cael eu haddasu i leihau effaith tarfu ar amser addysgu a dysgu wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig.

2.2. Y disgwyl yw y bydd cymwysterau'n cael eu hasesu gan arholiadau a/neu asesiadau di-arholiad gydag addasiadau; fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer trefniadau wrth gefn pe bai newidiadau yn sefyllfa iechyd y cyhoedd yn arwain at ganslo'r gyfres arholiadau.

2.3. Os bydd arholiadau'n cael eu canslo, gofynnir i ganolfannau ddyfarnu graddau penodedig i ddysgwyr. Byddai'r dull gradd a bennir gan y ganolfan yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd yn 2021, ond gyda rhai newidiadau i ystyried y gwersi a ddysgwyd. Felly, **nid** yw'r arweiniad hwn yn union yr un fath â'r canllawiau a luniwyd y llynedd.

3. Cydraddoldebau

3.1. Mae'n ofynnol i ganolfannau gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[3] bob amser, gan gynnwys wrth gynhyrchu graddau a bennir gan ganolfannau. Mae hefyd dyletswyddau penodol i Gymru sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i ddangos sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol[4]. Mae hyn yn golygu bod angen i ganolfannau gyfathrebu â dysgwyr, a rhieni/gofalwyr mewn ffordd glir, dryloyw a hygyrch, ac ystyried anghenion y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

3.2. Cynhyrchodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ganllawiau ar gydymffurfio â

[2] Canolfan(nau) yw'r term a ddefnyddir trwy gydol y ddogfen I gyfeirio at ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill.
[3] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/contents/made
[4] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer haf 2021 a oedd ar gael ar Hwb[5]. Hefyd, darparodd CBAC a Diverse Cymru hyfforddiant ar osgoi rhagfarn anymwybodol. Mae'r arweiniad a'r hyfforddiant hwn yn berthnasol ar gyfer haf 2022 os gweithredir y trefniadau asesu wrth gefn.

3.3. Dylai canolfannau weithredu prosesau i gyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb ac osgoi gwahaniaethu. Mae canllawiau ar gael yn 'Beth mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: Ysgolion[6]'.

3.4. Os caiff arholiadau eu canslo, efallai y bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd wrth ddefnyddio tystiolaeth o gyrhaeddiad mewn rhai amgylchiadau, er mwyn osgoi gwahaniaethu anuniongyrchol e.e. os yw dysgwr yn methu â dysgu cynnwys sy'n cael ei asesu, yna efallai y bydd angen asesiad amgen.

3.5. Os bydd arholiadau'n cael eu canslo, bydd yn ofynnol i ganolfannau CBAC weithredu prosesau sicrhau ansawdd mewnol i hyrwyddo cysondeb y dull gradd a bennir gan y ganolfan ar draws y ganolfan (o fewn pynciau ac ar draws pynciau).

4. Beth fydd graddau a bennir gan ganolfannau'n eu mesur yn haf 2022?

4.1. Os caiff arholiadau eu canslo, dyfernir graddau a bennir gan ganolfannau haf 2022 ar sail cyrhaeddiad a ddangosir mewn meysydd o gynnwys y cymhwyster y mae dysgwr wedi'u cynnwys. **Nid** yw graddau a bennir gan ganolfannau yr un peth â'r graddau targed neu'r graddau a ragwelir gan na fyddant yn cael eu dyfarnu ar sail cyrhaeddiad posibl.

4.2. Rhaid i'r dystiolaeth asesu a gesglir gwmpasu'r holl amcanion asesu a chynrychioli cwmpas digonol o ofynion **cynnwys manyleb wedi'i haddasu**.

5. Pa dystiolaeth o asesu y dylid ei chasglu?

5.1. Bydd CBAC yn darparu Fframweithiau Asesu Cymwysterau sy'n nodi'r gofynion lefel uchel ar gyfer tystiolaeth asesu ym mhob cymhwyster. Bydd CBAC hefyd yn darparu Canllawiau Creu Asesiadau.

5.2. Rhaid i ganolfannau hysbysu dysgwyr am y dystiolaeth y gellid ei defnyddio wrth bennu graddau cymhwyster cyffredinol dysgwyr pe bai arholiadau'n cael eu canslo, cyn i'r asesiadau gael eu cynnal. Am y rheswm hwn, cynghorir canolfannau i ddogfennu eu cynlluniau asesu ar gyfer pob pwnc. Nid oes angen cynlluniau asesu pwnc gan CBAC oni bai bod y dull wrth gefn yn cael ei sbarduno, ond bydd datblygu cynlluniau yn cefnogi tryloywder a chyfathrebu â dysgwyr. Gall cynlluniau asesu ar gyfer pob pwnc fod yn lefel uchel, yn gryno ac yn cyd-fynd â'r cynlluniau asesu lefel pwnc presennol.

5.3. Efallai y bydd canolfannau'n ei chael hi'n ddefnyddiol cyfathrebu eu dull asesu wrth gefn â'u dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr cyn gynted â phosibl, er mwyn darparu tryloywder a hyder yn y dull hwn.

5.4. Ni ddylai canolfannau roi manylion penodol i gwestiynau asesu neu gyn-bapurau a ddefnyddir i ddysgwyr. Mae'n bwysig bod yr asesiadau a ddefnyddir i gefnogi dyfarniadau yn darparu cynrychiolaeth wir a dilys o lefel cyrhaeddiad y dysgwr. Bydd hyn yn cael ei wyrdroi os oes gan y dysgwr wybodaeth flaenorol o'r cwestiynau a

[5] Hwb yw'r platform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru https://hwb.llyw.cymru
[6] https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/what-equality-law-means-you-education-provider-wales

ofynnir.

5.5. Rhaid i dystiolaeth asesu ddod o waith a gwblhawyd gan y dysgwr, ar gynnwys manyleb wedi'i haddasu, yn ystod y cwrs astudio ar gyfer y cymhwyster. Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys gwaith ysgrifenedig ac ymarferol fel sy'n briodol i'r fanyleb cymhwyster penodol.

5.6. Rhaid i ganolfannau ystyried addasiadau rhesymol y mae gan ddysgwyr hawl i'w cael a'u defnyddio ar gyfer pob asesiad.

5.7. Ni ragnodir nifer y darnau na'r math o dystiolaeth sy'n ofynnol, gan y bydd hyn yn amrywio yn ôl cymhwyster a sut y trefnir themâu a sgiliau allweddol mewn asesiadau. Fodd bynnag, bydd CBAC yn darparu enghreifft o ddulliau asesu posibl ym mhob pwnc, fel rhan o'r Fframweithiau Asesu Cymwysterau ar gyfer pob cymhwyster.

5.8. Ni ddylai cynnal asesiadau ar gyfer y trefniadau asesu wrth gefn posibl dynnu oddi wrth baratoi ar gyfer cyfres arholiadau haf 2022. Felly, bydd ychydig o ddarnau o dystiolaeth ddilys o ansawdd uchel yn ddigonol i ddangos cyrhaeddiad. Fel arweiniad, ni ddylai'r amser a dreulir ar asesiadau i lywio gradd a bennir gan ganolfan ar gyfer pob pwnc fod yn fwy na chyfanswm yr amser asesu y byddai dysgwyr yn ei gwblhau mewn cyfres arholiadau safonol ar gyfer y pwnc hwnnw.

5.9. Bydd angen i ganolfannau gadw tystiolaeth asesu ar gyfer dysgwyr a allai fod yn ofynnol fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd os bydd y trefniadau wrth gefn yn cael eu defnyddio.

5.10. Dim ond os bydd y trefniadau wrth gefn yn cael defnyddio y bydd CBAC yn darparu arweiniad ar lunio dyfarniadau gradd cymhwyster cyffredinol, disgrifyddion gradd ac arweiniad ar sicrhau ansawdd.

6. Cadw cofnodion

6.1. Bydd angen cofnodion i ddogfennu penderfyniadau graddio, pe bai hyn yn angenrheidiol, ond nid oes eu hangen oni bai bod arholiadau'n cael eu canslo. Dylai canolfannau ystyried y wybodaeth y bydd angen iddynt ei chofnodi a sicrhau ei bod yn cael ei chadw'n briodol. Er enghraifft, cofnodi bod trefniadau mynediad dysgwr wedi'u rhoi ar waith pan gynhaliwyd asesiadau.

6.2. Dylai canolfannau gadw gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw ystyriaethau arbennig y gallai fod gan rai dysgwyr hawl iddynt pe bai digwyddiad, fel profedigaeth yn y teulu neu salwch, yn effeithio arnynt ar adeg asesiad..

6.3. Bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau fel rheolwr data yn unol â deddfwriaeth diogelu data a dylent adolygu asesiadau effaith diogelu data a hysbysiadau preifatrwydd o 2021 cyn i unrhyw brosesu data ar gyfer trefniadau wrth gefn 2022 ddechrau.

7. Prosesau sicrhau ansawdd

7.1. Os bydd arholiadau'n cael eu canslo, bydd yn ofynnol i ganolfannau weithredu prosesau sicrhau ansawdd mewnol i hyrwyddo cysondeb y dull gradd a bennir gan ganolfannau ar draws y ganolfan (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Ni fydd unrhyw ofynion sicrhau ansawdd mewnol ychwanegol i'r rhai sy'n ofynnol yn haf 2021, er y gall canolfannau ddewis adolygu a diweddaru eu prosesau mewnol, yn ôl yr angen. Ni fydd yn ofynnol i ganolfannau gyflwyno Polisi Asesu Canolfannau ar gyfer haf 2022.

7.2. Os bydd arholiadau'n cael eu canslo, bydd CBAC yn gweithredu rhaglen o brosesau sicrhau ansawdd canolfannau allanol. Bydd hyn yn cynnwys samplu gwaith dysgwyr a'r penderfyniadau graddio cyfatebol a wneir gan ganolfan. Felly, rhaid i ganolfannau gadw'r holl dystiolaeth asesu berthnasol a ddefnyddir.

7.3. Dim ond os bydd y trefniadau wrth gefn yn cael eu defnyddio y bydd CBAC yn darparu arweiniad ar brosesau sicrhau ansawdd.

8. Ymgeiswyr preifat

8.1. Mae opsiynau i sicrhau mynediad at raddau cymwysterau i ddysgwyr nad ydynt ar gofrestr canolfan ac a fyddai fel arfer yn ymuno â'r cymwysterau hyn fel ymgeiswyr preifat yn cael eu trafod. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl ac erbyn diwedd Tymor yr Hydref 2021.

8.2. Byddwn yn cynhyrchu dogfen ar gyfer ymgeiswyr preifat sy'n manylu ar y dull gweithredu. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a grwpiau rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau bod cyfathrebu mor eang â phosibl fel bod dysgwyr sy'n ymgeisio am gymwysterau fel ymgeiswyr preifat yn gwybod beth fydd y broses os bydd arholiadau'n cael eu canslo.

9. Gwybodaeth a chefnogaeth i ddysgwyr

9.1. I'r mwyafrif o ddysgwyr, haf 2022 fydd y tro cyntaf iddynt gael eu hasesu trwy arholiadau allanol. Rydym ni'n sylweddoli y gallai hyn beri straen i lawer o ddysgwyr. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i roi pecyn o fesurau ar waith i gefnogi lles a dilyniant dysgwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth yn ystod yr hydref am y gefnogaeth ychwanegol hon.

9.2. Mae angen hysbysu dysgwyr am asesiadau y gellid eu defnyddio fel tystiolaeth yn nyfarniad cyffredinol eu gradd a bennir yn y ganolfan, os caiff arholiadau eu canslo. Mae hyn er mwyn dilyn rheolau diogelu data.

9.3. Dylai canolfannau rannu negeseuon calonogol, cyson a chlir i ddysgwyr am y trefniadau hyn, megis:

- oni bai bod arholiadau'n cael eu canslo, rydych chi'n paratoi ar gyfer asesiad trwy arholiadau, yn unol â'r gofynion asesu cymwysterau wedi'u haddasu, ac
- mae'r trefniadau wrth gefn hyn wedi'u cynllunio, rhag ofn y bydd sefyllfa iechyd y cyhoedd yn arwain at ganslo arholiadau. Cynllun wrth gefn ydyw.

Bydd Cymwysterau Cymru yn cynhyrchu adnoddau i chi eu rhannu â dysgwyr i gefnogi rhannu'r negeseuon hyn. Bydd CBAC hefyd yn parhau i weithio ar adnoddau penodol i ddysgwyr.

9.4. Gellid defnyddio asesiadau a gynhaliwyd dros yr ychydig dymhorau nesaf fel tystiolaeth o gyrhaeddiad, yn hytrach na dibynnu mwy ar asesiadau a gynhelir yn ystod wythnosau olaf y cwrs, os bydd arholiadau'n cael eu canslo. Mae hyn yn helpu i ledaenu'r asesiadau ar gyfer dysgwyr ac ar gyfer staff y ganolfan a fydd yn marcio asesiadau. Mae hefyd yn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â gadael y mwyafrif o asesu tan ddiwedd y cwrs a'r sefyllfa iechyd cyhoeddus ar yr adeg honno gan wneud hyn yn anodd. Efallai y bydd rhai dysgwyr yn teimlo'n bryderus am yr asesiadau parhaus hyn ac yn teimlo mwy o bwysau o ganlyniad. Dylai canolfannau ddarparu cefnogaeth fugeiliol a lles addas yn ystod y cyfnod anodd hwn. Er enghraifft, gallai canolfannau gynllunio ar gyfer diweddariadau rheolaidd i ddysgwyr mewn carfannau sy'n sefyll arholiadau yn yr haf.

9.5. I baratoi ar gyfer arholiadau, bydd canolfannau'n rhoi adborth i ddysgwyr pan fyddant yn cwblhau asesiadau, fel rhan o'r rhaglenni addysgu a dysgu arferol. Gellir rhannu marciau ac arwyddion perfformiad yn y tasgau hyn â dysgwyr, i'w cymell a'u harwain. Mae'n bwysig nad yw'r adborth hwn yn gysylltiedig â graddau a bennir gan ganolfannau ar y pwynt hwn. Os bydd arholiadau'n cael eu canslo a bod angen cynhyrchu graddau a bennir gan ganolfannau, yna bydd CBAC yn darparu arweiniad pellach ar ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi dyfarniad cyfannol, cyffredinol o gyrhaeddiad a gefnogir gan yr asesiadau hyn.

9.6. Bydd gwybodaeth i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr ar ein gwefan am y cynlluniau wrth gefn. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, CBAC ac ysgolion a cholegau i ddarparu gwybodaeth berthnasol.

9.7. Mae gwefan y Comisiynydd Plant Cymru Coronafeirws - Hwb Gwybodaeth i blant a theuluoedd - (complantcymru.org.uk) yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cymorth i bobl ifanc, gan gynnwys iechyd meddwl a chymorth emosiynol.

10. Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau

10.1. Bydd CBAC yn darparu'r canllawiau canlynol ochr yn ochr â'r wybodaeth hon:

- Fframweithiau Asesu Cymwysterau gan gynnwys canllawiau asesu
- Canllawiau Creu Asesiadau

10.2. Gwybodaeth a chanllawiau eraill o haf 2021 sy'n berthnasol i haf 2022 ar hyn o bryd:

- Canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Canllawiau CBAC ar osgoi rhagfarn anymwybodol
- Diogelu data a phrosesu data

10.3. Os bydd arholiadau'n cael eu canslo, darperir rhagor o wybodaeth ac arweiniad. Bydd hyn yn cynnwys arweiniad ar raddio cymwysterau cyffredinol a'r broses apelio.

10.4. Yn 2021, awgrymodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddolenni i ganllawiau a allai fod yn arbennig o berthnasol. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Y prif arweiniad ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/
- fewn y prif arweiniad hwn, mae'r adrannau canlynol yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol:
- Canllawiau ar Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIAs), gan gynnwys templed DPIA a rhestrau gwirio i helpu rheolwyr data i benderfynu a oes angen DPIA
- Canllawiau ar yr hawl i gael eich hysbysu, a fydd yn helpu'r holl reolwyr data sy'n rhan o'r broses asesu i ddatblygu a darparu gwybodaeth breifatrwydd o ansawdd da i ymgeiswyr
- Canllawiau ar brosesu data personol categori arbennig, sy'n cynnwys templed dogfen bolisi ar gyfer y prosesu hwnnw.